**Telerau ac Amodau Prifysgol Bangor**

Mae'r telerau a'r amodau canlynol yn berthnasol i'r gwasanaethau academaidd a'r gwasanaethau cysylltiedig a ddarperir i chi gan Brifysgol Bangor (y "**Telerau ac Amodau**").

**Mae'r Telerau a'r Amodau hyn yn rhan o'ch Contract gyda Phrifysgol Bangor. Mae'n bwysig iawn eich bod yn darllen ac yn deall y Telerau a'r Amodau hyn cyn i chi dderbyn lle i astudio ar raglen ym Mhrifysgol Bangor gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am eich astudiaethau gyda ni gan gynnwys ein hawliau ni i wneud newidiadau i'r Telerau a'r Amodau hyn, am eich Ffioedd, am ein hatebolrwydd i chi ac am yr hawl i ganslo. Tynnir eich sylw'n arbennig at gymal 7 (rhwymedigaethau), cymal 8 (Ffioedd a Thaliadau), 9 (Ein hatebolrwydd i chi), cymal 11 (Amrywiadau i Delerau ac Amodau'r Contract), cymal 12 (Terfynu gennym ni), a 13 (Terfynu gennych chi).**

**[Gallwch ymrwymo i gontractau eraill gyda Phrifysgol Bangor ar gyfer gwasanaethau eraill megis Llety, ond bydd y rhain yn cael eu llywodraethu gan delerau ac amodau ar wahân.]**

**Pwy ydym ni.** Prifysgol Bangor ydym ni (y "**Brifysgol**", a "**ni**"). Rydym yn elusen gofrestredig gyda'r rhif elusen 1141565. Mae ein cyfeiriad isod.

**Sut i gysylltu â ni.** Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Telerau a'r Amodau hyn neu os oes angen rhagor o fanylion arnoch, cysylltwch â ni drwy ein ffonio neu drwy ysgrifennu atom yn defnyddio'r cyfeiriad post neu'r cyfeiriad e-bost canlynol:

Cyfeiriad e-bost: gweinyddiaeth-myfyrwyr@bangor.ac.uk
Rhif ffôn: 01248 351151
Cyfeiriad post: Prifysgol Bangor, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd LL57 2DG

Rydym yn argymell eich bod yn anfon eitemau trwy ddosbarthiad a gofnodwyd os ydych yn dewis gohebu drwy'r post.

## 1. Pa ddogfennau sy'n rhan o'n Contract?

Y Telerau a'r Amodau hyn, ynghyd â'r dogfennau canlynol, sy'n ffurfio ein contract gyda chi (ein "**Contract**"):

a) eich cynnig penodol ("**Cynnig**"), a anfonir atoch trwy UCAS neu drwy ein system Ceisiadau Uniongyrchol ar ffurf llythyr cynnig;
b) Yr holl reoliadau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol fel y nodir yn Atodiad 2.

Gellir dod o hyd i ddolenni at bob un o'r dogfennau eraill hyn (heblaw am eich Cynnig, a ddyroddir fel y nodir yn 1.a) uchod) ar wefan y Brifysgol yma.

## 2. Pryd mae'r Telerau a'r Amodau hyn yn berthnasol?

Trwy dderbyn yn ffurfiol, yn unol â'r cyfarwyddiadau ar UCAS neu yn eich Llythyr Cynnig trwy’r drefn Ceisiadau Uniongyrchol, gynnig i astudio yn y Brifysgol, rydych yn derbyn holl delerau'r Contract.

Dylech sicrhau eich bod yn ymgyfarwyddo â'r dogfennau hyn a'u cynnwys cyn i chi dderbyn cynnig o le ar raglen. Gallai peidio â chydymffurfio â'u gofynion olygu bod y Brifysgol yn gweithredu yn eich erbyn o dan brosesau perthnasol y Brifysgol (er enghraifft y rhai sy'n ymwneud â chynnydd academaidd, camymddwyn myfyrwyr, addasrwydd i ymarfer, addasrwydd i astudio neu ffioedd) a allai olygu bod y Brifysgol yn atal neu'n terfynu eich Contract.

## 3. Sut caiff y Contract ei ffurfio rhyngom:

Caiff ein Contract â chi ei ffurfio ar un o'r tri phwynt canlynol:

i. Pan fyddwch yn 'derbyn' eich cynnig o le ym Mhrifysgol Bangor (Ymgeiswyr israddedig UCAS ac ôl-radd, cartref / o'r Undeb Ewropeaidd);
ii. Pan fyddwch wedi 'derbyn' eich cynnig o le ym Mhrifysgol Bangor AC wedi talu'r blaendal gofynnol (ymgeiswyr rhyngwladol, tramor); **NEU**
iii. Pan fydd Prifysgol Bangor yn 'derbyn' yr ymgeisydd yn UCAS (ymgeiswyr clirio).

## 4. Amodau

Mae'r Contract yn amodol ar i chi fodloni a pharhau i fodloni'r amodau canlynol (yr holl “**Amodau**”). Mae cynigion a gyhoeddir trwy UCAS hefyd yn darparu manylion am y dyddiadau y bydd rhaid i chi fod wedi bodloni'r Amodau penodol. Mae llythyrau cynnig a gyhoeddir trwy'r system Ceisiadau Uniongyrchol yn nodi bod y Cynnig yn parhau'n ddilys tan y dyddiad cofrestru penodedig, a bydd rhaid bodloni'r holl Amodau erbyn hynny. Mewn llawer o achosion, bydd rhaid bodloni'r Amodau hyn ar sail barhaus.

Bydd rhaid i fyfyrwyr rhyngwladol fod wedi bodloni holl amodau'r cynnig cyn gall y Brifysgol gyhoeddi Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS).

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod yr holl wybodaeth rydych yn ei darparu i ni yn wir, yn gywir ac yn gyflawn ac heb fod yn gamarweiniol ac yn parhau i fod yn wir, yn gywir ac yn gyflawn ac heb fod yn gamarweiniol trwy gydol eich Contract. Sylwer, os down i wybod ar unrhyw adeg nad yw'r wybodaeth rydych wedi ei darparu i ni yn wir, yn gywir a/neu'n gyflawn, a/neu'n gamarweiniol, neu os daw gwybodaeth i fod yn anwir, yn anghywir a/neu'n anghyflawn, a/neu'n gamarweiniol ar unrhyw adeg, gallwn derfynu ein Contract gyda chi yn unol â'r Polisi a’r Cod Ymarfer Recriwtio a Derbyniadau (Polisi Derbyniadau), Adran 6.15.

Rhaid i chi fodloni, a pharhau i fodloni'r Amodau canlynol:

a) rhaid i chi fodloni gofynion mynediad academaidd neu ofynion mynediad eraill ar gyfer eich dewis raglen fel y nodir yn y Cynnig;
b) bodloni'r holl ofynion cyfreithiol neu ofynion eraill angenrheidiol (er enghraifft mewn

perthynas â gwirio a datgelu cofnodion troseddol, asesiadau iechyd a gofynion datgelu neu fewnfudo), fel y nodir yn eich Cynnig UCAS neu yn eich Llythyr Cynnig trwy’r system Ceisiadau Uniongyrchol;

c) unrhyw amodau penodol y mae'n rhaid i chi eu bodloni, fel y nodir yn eich Cynnig;

d) cofrestru gyda'r Brifysgol ar ddechrau eich Rhaglen a chofrestru ar ddechrau pob blwyddyn academaidd ddilynol (fel y manylir ymhellach o dan gymal 6 isod).

e) Rhaid i bob myfyriwr gofrestru'n ffurfiol gydag adran Weinyddu Myfyrwyr y Gwasanaethau Myfyrwyr ar ddechrau eu rhaglen astudio ac wedi hynny cyn dechrau pob blwyddyn academaidd newydd yn ystod eu hastudiaethau academaidd.

**Canlyniadau peidio â bodloni'r Amodau**

f) Os byddwch yn methu â bodloni unrhyw un o'r Amodau hyn, gall y Brifysgol derfynu'r Contract yn unol â chymal 12.

g) Os na fyddwch yn bodloni unrhyw Amodau cyn i chi gofrestru gyda ni, dylech gysylltu â'r Brifysgol yn y lle cyntaf, oherwydd efallai y bydd yn bosib cynnig lle i chi ar y rhaglen honno neu ar raglen amgen er nad ydych wedi bodloni'r Amodau.Ond ar ôl ystyried eich sefyllfa, os na allwn gynnig lle i chi o dan amgylchiadau o'r fath, bydd y Contract hwn yn dod i ben, ac ni fyddwch yn gyfrifol i'r Brifysgol am unrhyw ffioedd, a bydd gennych hawl i gael ad-daliad am unrhyw ffioedd neu adneuon y byddwch eisoes wedi eu talu i ni.

## 5. Eich hawl gyfreithiol i ganslo

<u>Hawl i ganslo</u>

a) Mae gennych hawl gyfreithiol i ganslo’r Contract hwn o fewn 14 diwrnod o’r diwrnod y cafodd ein Contract ei ffurfio yn unol â chymal 3 uchod.

b) Er mwyn gweithredu'r hawl i ganslo, rhaid i chi hysbysu'r Brifysgol am eich penderfyniad i ganslo'r contract hwn trwy wneud datganiad clir (e.e. llythyr a anfonwyd trwy'r post, e-bost neu alwad ffôn). Gallwch ddefnyddio'r ffurflen ganslo ar ddiwedd y ddogfen hon, ond nid oes rhaid gwneud hynny.

<u>Effaith canslo</u>

c) Os byddwch yn canslo'r Contract hwn o fewn y cyfnod canslo a nodir uchod, bydd y Brifysgol yn ad-dalu i chi'r holl daliadau a dderbyniwyd oddi wrthych, yn cynnwys unrhyw flaendal rydych wedi ei dalu os ydych yn fyfyriwr rhyngwladol.

d) Bydd y Brifysgol yn gwneud yr ad-daliad cyn pen 14 diwrnod calendr ar ôl i chi ein hysbysu am eich penderfyniad i ganslo'r Contract hwn.

e) Bydd y Brifysgol yn gwneud yr ad-daliad yn defnyddio'r un dull talu ag y gwnaethoch chi ei ddefnyddio i wneud y trafodiad cychwynnol, oni bai ein bod wedi cytuno'n benodol fel arall; beth bynnag, ni fyddwch yn gorfod talu unrhyw ffioedd o ganlyniad i'r ad-daliad.

<u>Rhaglenni sy'n dechrau o fewn y cyfnod canslo statudol</u>

f) Os ydych wedi derbyn lle yn y Brifysgol trwy Drefn Glirio UCAS, efallai y bydd rhaid i

ni ddechrau darparu gwasanaethau i chi yn ystod eich cyfnod canslo o 14 diwrnod. Os bydd angen gwneud hyn, bydd angen i ni gysylltu â chi i gael eich cydsyniad i ddechrau darparu gwasanaethau i chi, ac os penderfynwch wedyn ganslo'r contract o fewn y cyfnod canslo, darperir ad-daliad llawn i chi, fel y nodir ym Mholisi Ffioedd Dysgu'r Brifysgol.

**6. Eich Rhwymedigaethau Chi**

Rhaid i chi gydymffurfio â thelerau'r Contract gan gynnwys y Telerau a'r Amodau hyn. Rydych yn ddarostyngedig i reolau a rheoliadau'r Brifysgol (fel y nodir yn atodiad 2 y Telerau a'r Amodau hyn) a thynnir eich sylw yn benodol at y canlynol:

a) Mae'r Brifysgol yn mynnu eich bod chi yn cadw at y safonau ymddygiad a ddiffinnir gan y rheoliadau, gweler y Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer yr Holl Fyfyrwyr sy'n cynnwys y Cod Ymddygiad i Fyfyrwyr, a'r Siarter Myfyrwyr.Bydd y Brifysgol yn cymryd camau disgyblu pan fo unrhyw achos o dorri'r rheoliadau.

b) Rhaid i chi dalu eich Ffioedd yn brydlon (fel y nodir yn eich Cynnig) ac unrhyw daliadau a dirwyon perthnasol. Rhaid talu Ffioedd yn unol â'n Polisi Ffioedd Dysgu. Os ydych yn mynd i ddyled gyda ffioedd academaidd (ffioedd dysgu a ffioedd eraill sy'n gysylltiedig â dysgu a nodir yn eich Cynnig) gall y Brifysgol weithredu sancsiynau yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: gwrthod caniatâd i gofrestru, cadw dogfennau'r Brifysgol yn ôl (e.e. tystysgrifau cymwysterau), a/neu gymryd camau cyfreithiol. Nid yw hyn yn cynnwys ffioedd sy'n ymwneud â llety, parcio, Undeb y Myfyrwyr a seremonïau graddio.

c) Rhoddir cyfeiriad e-bost Prifysgol i chi a rhaid i chi edrych ar eich cyfrif e-bost Prifysgol o leiaf unwaith yr wythnos. Y cyfrif hwn a ddefnyddir gan y Brifysgol i gyfathrebu'n electronig â chi.

d) Bydd eich presenoldeb yn cael ei fonitro fel y disgrifir ym Mholisi Ymgysylltiad Academaidd y Brifysgol.

e) Er mwyn symud o un lefel i lefel arall mewn rhaglen (er enghraifft, o'r flwyddyn gyntaf i ail flwyddyn gradd israddedig), rhaid i chi fodloni safonau eich cwrs o ran symud ymlaen fel y nodir yn rheoliadau'r rhaglen.

f) Mae astudio mewn prifysgol yn dibynnu ar uniondeb academaidd ac mewn amgylchiadau difrifol efallai y byddwn yn eich tynnu'n ôl o'ch rhaglen neu o'r Brifysgol o ganlyniad i gamymddwyn academaidd. Mae enghreifftiau o gamymddwyn academaidd yn cynnwys cyflwyno gwaith rhywun arall fel eich gwaith eich hun (llên-ladrad) neu dwyllo mewn arholiad.

g) I gwblhau eich rhaglen yn llwyddiannus, mae'n rhaid i chi gyflawni'r meini prawf a bennir ar gyfer y rhaglen fel y nodir yn rheoliadau'r rhaglen.

h) Mae'n ofynnol i chi sicrhau bod eich manylion cyswllt yn gyfredol bob amser.Rhaid i chi gofnodi'r holl newidiadau i'ch manylion cyswllt trwy FyMangor _(Eich Manylion-> Cysylltiadau)

i) Rhaid i chi hysbysu'r Brifysgol cyn gynted ag sy'n rhesymol bosib os daw'n amlwg bod unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gennych, yn cynnwys gwybodaeth yn eich cais i ni, yn ffug, yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol.

j) Os ydych yn fyfyriwr rhyngwladol, mae'n rhaid i chi ein hysbysu ar unwaith os nad ydych bellach yn bodloni amodau nawdd eich Fisa Myfyriwr (gan gynnwys Haen 4).

Mae eich rhwymedigaethau o dan y Contract hwn yn berthnasol tra pery'r Contract. Gall peidio â chydymffurfio â'ch rhwymedigaethau olygu ein bod ni yn cymryd camau o dan reoliadau, polisïau neu weithdrefnau perthnasol y Brifysgol, ac mewn achosion difrifol gallwn atal eich astudiaethau neu eich tynnu'n ôl o'r rhaglen fel y manylir o dan gymal 13.

**7. Ein Rhwymedigaethau Ni**

a) Gweinyddu proses deg ar gyfer ceisiadau a derbyniadau.
b) Eich cofrestru ar gyfer yr arholiadau a'r asesiadau priodol.
c) Darparu a chyflwyno rhaglenni addysg uwch sy'n arwain at gymwysterau fel y disgrifir yn ein deunyddiau marchnata ac yn ein Cynnig.
d) Eich annog gydag unrhyw fater sy'n ymwneud â'ch dysgu a'ch rhwymedigaethau o dan ein Contract.
e) Darparu gwasanaethau bugeiliol a chefnogaeth resymol fel y nodir yn y Cod Ymarfer Cefnogaeth Fugeiliol.
f) Byddwn yn darparu'r gwasanaethau academaidd a'r gwasanaethau cefnogi myfyrwyr a amlinellir uchod ac mewn mannau eraill yn ein Contract (y "Gwasanaethau") gyda sgìl a gofal rhesymol ac yn unol â thelerau ein Contract.

**8. Ffioedd a Thaliadau**

a) Nodir y ffioedd sy'n daladwy gennych chi i ni gan UCAS neu yn eich Llythyr Cynnig trwy'r system Ceisiadau Uniongyrchol (y "**Ffioedd**") a chânt eu disgrifio fel Ffioedd Dysgu a Ffioedd Mainc (lle bo hynny'n berthnasol). Chi sy'n gyfrifol am dalu'r Ffioedd i ni pan fyddant yn ddyledus, ac mae manylion ynglŷn â phryd a sut mae'n ofynnol i chi dalu'r Ffioedd hyn wedi eu nodi yn Llythyr Cynnig y system Ceisiadau Uniongyrchol.
b) Byddwn yn adolygu ein ffioedd a'n polisi ffioedd yn flynyddol yn unol â'n Polisi Ffioedd Dysgu a gall y ffioedd sy'n daladwy gennych chi i ni newid o ganlyniad i hynny.
c) Os ydych wedi trefnu bod trydydd parti yn talu Ffioedd ar eich rhan, byddwch chi yn parhau i fod yn gyfrifol am dalu'r Ffioedd i ni os bydd y trydydd parti yn methu â gwneud hynny pan ddaw'r Ffioedd hynny'n ddyledus. Os yw ad-daliad yn daladwy o dan y Contract hwn, efallai y bydd gofyn i ni wneud ad-daliad yn uniongyrchol i'r trydydd parti a dalodd y Ffioedd ar eich rhan.
d) Os ydych chi, ar ddiwedd blwyddyn academaidd nad yw'n flwyddyn olaf eich rhaglen, mewn dyled i ni am Ffioedd, rydym yn cadw'r hawl i beidio â chaniatáu i chi ailgofrestru ar eich rhaglen ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf ac i derfynu'r Contract fel y nodir yng nghymal 12.
e) Os ydych chi, ar ddiwedd blwyddyn academaidd olaf eich rhaglen, mewn dyled i ni am Ffioedd, rydym yn cadw'r hawl i ddal eich cymhwyster/tystysgrif yn ôl.

**9. Ein hatebolrwydd i chi**

a) Os na fyddwn yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan y Contract hwn, byddwn yn gyfrifol am golled neu ddifrod y byddwch chi yn ei ddioddef o ganlyniad rhagweladwy i'r tor-Contract hwnnw neu o ganlyniad i'n hesgeulustod ni, ond ni

fyddwn yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod na ellir ei ragweld. Mae colled neu ddifrod yn rhagweladwy os oeddent yn ganlyniad amlwg i dor-Contract neu os cawsant eu hystyried gennych chi a gennym ni wrth i ni wneud y Contract hwn.

b) Ni fyddwn yn gyfrifol i chi am unrhyw un o'r canlynol:
- difrod i gerbydau a beiciau sydd wedi eu parcio ar dir y Brifysgol neu gerbydau a beiciau sydd wedi eu parcio ar dir y Brifysgol yn cael eu dwyn;
- difrod i offer cyfrifiadurol (gan gynnwys haint â firws cyfrifiadurol) neu offer cyfrifiadurol yn cael eu dwyn;
- colli neu beidio â dychwelyd gwaith a gyflwynwyd i'w asesu;
- anaf yn deillio o weithgaredd chwaraeon gwirfoddol;
- anaf personol neu farwolaeth ac eithrio os achoswyd gan esgeulustod staff y Brifysgol;
- colli cyfle a cholli incwm neu elw, ni waeth sut mae'n codi; neu
- unrhyw golled o ganlyniad i seiber-dwyll.

c) Nid ydym yn eithrio nac yn cyfyngu ein hatebolrwydd am y canlynol mewn unrhyw ffordd:
- marwolaeth neu anaf personol a achoswyd gan ein hesgeulustod neu esgeulustod ein staff;
- twyll neu gamliwio twyllodrus; neu
- unrhyw fater arall na chaniateir i ni eithrio na chyfyngu ein hatebolrwydd ohono yn ôl y gyfraith.

d) Ni fydd y Brifysgol yn atebol i chi am unrhyw fethiant i gyflawni neu oedi wrth gyflawni ei rhwymedigaethau i chi a achosir gan unrhyw amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth resymol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: llifogydd, storm neu ddigwyddiadau naturiol eraill; rhyfel neu aflonyddwch sifil; dinistrio, chwalu neu ddifrodi unrhyw adeilad, peirianwaith neu offer; cyflwyno neu unrhyw newid i, unrhyw gyfraith neu reoliad neu unrhyw newid mewn dehongliad neu gymhwysiad gan unrhyw awdurdod; neu unrhyw gamau a gymerwyd gan awdurdod llywodraethol neu gyhoeddus neu asiantaeth o'r Gymuned Ewropeaidd; unrhyw bandemig neu epidemig, unrhyw streic, cloi allan neu weithredu diwydiannol arall neu unrhyw ddigwyddiad arall, p'un a yw'n debyg ai peidio i unrhyw un o'r digwyddiadau uchod.

**10. Eiddo Deallusol**

a) Mae gan y Brifysgol Bolisi Eiddo Deallusol sy'n ymdrin ag eiddo deallusol a gaiff ei greu tra byddwch yn fyfyriwr yn y Brifysgol. Fel rheol, chi fydd yn berchen ar Eiddo Deallusol o'r fath. Ond mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig bydd y Brifysgol yn berchen ar eiddo deallusol neu efallai y bydd yn gallu ei gopïo.

b) Trwy dderbyn lle yn y Brifysgol, rydych yn derbyn yn ffurfiol hawliau perchnogaeth a hawliau'r Brifysgol i ddefnyddio a chopïo, fel y nodir yn ei Pholisi Eiddo Deallusol.

## 11. Amrywiadau i'r Contract

**Sut gallwn wneud newidiadau i'r Contract a sut gallai hynny effeithio arnoch chi.**

a) Er y bydd y Brifysgol bob amser yn ceisio gwneud cyn lleied o newidiadau â phosib i'r Contract (gan gynnwys newidiadau i'r gwasanaethau a/neu'r rhaglenni), o dro i dro gall fod rhaid gwneud newidiadau. Mae cymal 11 yn disgrifio'r amgylchiadau pan allwn wneud newidiadau, yn ogystal â rhoi gwybodaeth bellach i chi am yr hyn a wnawn os bydd bwriad gennym i wneud newidiadau o'r fath.

**Newidiadau i wybodaeth cyn-Gontract** (e.e. gwybodaeth prosbectws)

b) Os bydd unrhyw wybodaeth a roesom i chi yn ystod y cylch recriwtio a derbyn cyfredol (ac yn ystod yr amser hwnnw efallai eich bod wedi bod yn ymchwilio i'r Brifysgol ac yn gwneud cais am le ar y rhaglen) yn newid erbyn i ni anfon ein Cynnig, caiff y newidiadau hynny eu hadlewyrchu yn y wybodaeth Cynnig rhaglen a ddarperir i'r deiliad Cynnig, cyn gynted â bo hynny'n ymarferol bosib, ar ôl cyhoeddi'r Cynnig.

c) Trwy dderbyn ein Cynnig, byddwch yn cadarnhau eich bod yn derbyn ein Cynnig ar sail y newidiadau a nodir yn y Cynnig. Gallai enghreifftiau o'r newidiadau y gallwn eu gwneud ar y pwynt hwnnw gynnwys y canlynol:

- newidiadau a wnaed mewn ymateb i adborth gan fyfyrwyr a/neu arholwyr allanol;
- newidiadau anochel ymhlith y staff academaidd neu staff cefnogi myfyrwyr;
- os gwnaethom gynghori bod y rhaglen yn amodol ar gymeradwyaeth neu achrediad ar yr adeg y gwnaethom hysbysebu'r rhaglen, ac na chafwyd cymeradwyaeth neu achrediad erbyn dyddiad eich cynnig, gallem wneud cynnig 'yn amodol ar gymeradwyaeth/achrediad', ond wedi hynny gallem beidio â chynnal y rhaglen a byddai'r cynnig yn cael ei dynnu'n ôl neu gellir cynnig rhaglen arall;
- newidiadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a/neu o ganlyniad i ofynion rheoleiddiol y mae'n ofynnol i'r Brifysgol, fel darparwr gwasanaethau addysgol, gydymffurfio â nhw neu o ganlyniad i ganllawiau rheoleiddiol neu ganllawiau gan y llywodraeth;
- newidiadau sy'n ofynnol gan gorff statudol, rheoleiddiol a/neu broffesiynol a/neu reoleiddiwr arall;
- newidiadau rhesymol i'r cynnwys a'r addysgu a ddarperir ar y rhaglen.

**Newidiadau ar ôl i chi ymrwymo i'r Contract gyda ni**

d) Pan fo angen i ni wneud newidiadau i'r Contract ar ôl i'n Contract fod wedi ei ffurfio, byddwn ym mhob achos yn asesu effaith bosib y newidiadau hynny ar y Contract ac ar ein myfyrwyr a byddwn yn dilyn yr egwyddorion a nodir yng nghymal 11. Mae'r Brifysgol bob amser yn ceisio gwella'r profiad a gaiff y myfyrwyr gyda ni, a byddwn yn cymryd rhan mewn deialog gyda'n myfyrwyr trwy gydol eu hastudiaethau, yn ogystal â gyda'n staff addysgu, a byddwn yn mynd ati i geisio adborth gan y grwpiau

hyn ynglŷn â sut y gallwn wella darpariaeth gwasanaeth i'n myfyrwyr.

e) Nid yr amgylchiadau a ddisgrifiwn yng nghymal 11(f) yw'r unig rai a all godi yn ystod eich astudiaethau gyda ni, ond maent yn rhoi rhywfaint o gyd-destun i chi ynglŷn â phryd y byddai angen i ni newid y Contract (gan gynnwys y gwasanaethau a'r rhaglen). Mae cymal 11(g) yn darparu enghreifftiau i chi o'r math o newidiadau a all godi o ganlyniad i'r rhesymau a nodir yng nghymal 11(f).

**Pryd y gallwn wneud newidiadau i'r Contract**

f) Gallwn wneud newidiadau i'n Contract (gan gynnwys i'r gwasanaethau a/neu'r rhaglen):

- er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith a/neu ofynion cyrff proffesiynol, rheoleiddiol a/neu statudol a/neu UKVI;
- fel sy'n ofynnol gan bolisi'r llywodraeth a/neu ofynion rheoleiddiol, polisi a/neu ganllawiau a/neu benderfyniad llys cymwys neu gorff tebyg;
- er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ofyniad a bennir gan unrhyw gorff cyllido arall a/neu gorff rheoleiddiol;
- er mwyn cydymffurfio â gofynion cyrff achredu;
- er mwyn ymdrin â newidiadau anochel ymhlith y staff academaidd a/neu'r staff cefnogi;
- er mwyn rhoi sylw a/neu gymryd camau mewn ymateb i fygythiad i ddiogelwch;
- er mwyn ymgorffori canllawiau arfer da'r sector;
- yng ngoleuni adborth gan fyfyrwyr a/neu adborth gan arholwyr allanol;
- oherwydd datblygiadau perthnasol mewn safonau a/neu ofynion addysgu academaidd, ymchwil a/neu broffesiynol, e.e. trwy'r broses gymeradwyo/ailgymeradwyo;
- niferoedd cofrestru isel/gostyngiad yn y niferoedd cofrestru yn y dyfodol;
- unrhyw achrediad perthnasol yn cael ei dynnu'n ôl;
- er mwyn adlewyrchu newidiadau a wnaed gan ddarparwr lleoliad a/neu ddarparwr lleoliad yn tynnu lleoliad yn ôl;
- er mwyn adlewyrchu newidiadau a wnaed gan bartner cydweithredol a/neu ofynion partner cydweithredol;
- cynlluniau tymor hir y Brifysgol sy'n arwain at ddileu maes pwnc penodol yn raddol;
- am unrhyw reswm dilys arall.

**Pa fath o newidiadau y gellid eu gwneud?**

g) Gall y rhesymau yng nghymal 11(f) uchod olygu bod nifer o wahanol newidiadau yn cael eu gwneud gennym mewn ymateb. Rydym wedi nodi yng nghymal 11(g) rai enghreifftiau o'r ymatebion hynny ac, er mwyn eich helpu i ddeall yr hyn y gallai newidiadau o'r fath ei olygu i chi'n ymarferol, rydym wedi gwneud hyn trwy gyfeirio at yr enghreifftiau hynny gan ddefnyddio'r penawdau "newidiadau mawr" a "mân newidiadau". Bydd darpariaethau cymal 11(h) ac 11(g) yn berthnasol yn ddibynnol

ar y math o newid a ragwelir ar y pryd.

**Mân Newidiadau (rhestr o enghreifftiau nad yw'n gynhwysfawr):**

- newidiadau rhesymol i amserlen cyflwyno eich rhaglen;
- newidiadau rhesymol i nifer y dosbarthiadau/darlithoedd a gweithgareddau addysgu eraill sy'n ymwneud â'r rhaglen;
- newidiadau rhesymol i ddulliau cyflwyno a/neu'r asesu'r rhaglen;
- amrywiadau rhesymol i gynnwys a maes llafur y rhaglen;
- newidiadau i leoliad cyfleusterau eich rhaglen, cyhyd â’u od ar yr un campws a/neu cyhyd â’u bod o'r un ansawdd â'r rhai a hysbysebwyd gennym;
- ychwanegu a/neu dynnu rhai modiwlau yn ôl nad ydynt yn rhai craidd ar eich rhaglen;
- newidiadau i'r rhestrau darllen i ymdrin â newidiadau yn y maes pwnc perthnasol sy'n ymwneud â'ch rhaglen i sicrhau ei bod mor gyfredol â phosib;
- newidiadau gweithdrefnol i'n Llawlyfr Myfyrwyr sy'n helpu ei wella er eich budd chi.

**Newidiadau Mawr (rhestr o enghreifftiau nad yw'n gynhwysfawr)**

- newidiadau i'r ffordd rydym yn addysgu, yn goruchwylio a/neu'n asesu rhaglen i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r rhaglen honno i chi yn gyfreithlon a/neu'n unol â safonau ac ansawdd academaidd;
- ychwanegu a/neu dynnu rhai modiwlau yn ôl nad ydynt yn rhai craidd/gorfodol ar eich rhaglen;
- gwneud newidiadau mwy sylweddol i'n rhaglenni gan gynnwys mewn perthynas â'u cynnwys, modd ac amseriad y cyflwyno a’r asesu;
- newid ein gweithdrefnau diogelwch i'r fath raddau fel y byddai'n effeithio ar y ffordd y buoch yn gweithredu o'r blaen pan oeddech ar y campws gyda ni;
- newidiadau sylweddol i leoliad neu fanyleb cyfleusterau addysgu eich rhaglen, a allai gynnwys symud y rhaglen i gampws arall neu leoliad arall nad yw ger y campws y cyflwynwyd y rhaglen yn wreiddiol;
- newidiadau sylweddol i'n Llawlyfr Myfyrwyr sy'n helpu i'w wella ond nad yw hynny o fantais i chi;
- anallu i ganiatáu cofrestriadau i ail-wneud blwyddyn neu gofrestriadau i ail-wneud modiwl oherwydd bod bwriad i ddod â rhaglen astudio neu faes pwnc i ben.

**Sut y byddwn yn rhoi gwybod i chi am newidiadau i'r Contract**

h) Yn achos mân newidiadau, byddwn yn eich hysbysu am unrhyw newidiadau trwy e-bost gan roi cymaint o rybudd i chi ag sy'n briodol yn ein barn ni o dan yr amgylchiadau. Lle bo modd, ceisiwn roi rhybudd i chi ymlaen llaw, ond efallai na fydd hynny'n bosib bob amser.

i) Yn achos newidiadau mawr, byddwn fel arfer yn eich hysbysu trwy e-bost neu trwy lythyr cyn gynted â phosibl, a phan fo hynny'n bosibl yn ddim hwyrach na mis cyn y disgwyliwn wneud y newid sydd dan sylw.

j) Os bydd y Brifysgol yn gweithredu ei hawl i wneud newidiadau yn unol â'r uchod, bydd yn cymryd pob cam rhesymol i hysbysu'r myfyrwyr yr effeithir arnynt a lleihau unrhyw effaith andwyol ar eu hastudiaethau.

k) Mae gan y Brifysgol Gynllun Diogelu Myfyrwyr ar waith sy'n amlinellu'r risgiau i barhad astudiaethau myfyrwyr, y mesurau lliniaru er mwyn diogelu myfyrwyr, a'r mesurau y bydd yn eu rhoi ar waith pe bai'r canlyniadau hyn yn datblygu.

l) Sylwer y gallai argaeledd a chwmpas gwasanaethau bugeiliol a chefnogi yn y Brifysgol newid yn ystod eich astudiaethau am nifer o resymau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: mewn ymateb i drefniadau cyllido ac anghenion myfyrwyr. Felly mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i amrywio a/neu newid amrywiaeth y gwasanaethau bugeiliol a chefnogi sydd ar gael ar unrhyw adeg.

m) Os ydych yn anghytuno ag unrhyw newid mawr a wnawn i'r Contract, bydd gennych hawl i derfynu'r Contract mewn modd sy'n briodol i'ch statws fel a ganlyn:

- Cyn-gofrestru: trwy beidio â chofrestru ar y rhaglen
- Ôl-gofrestru: trwy ddilyn y broses ffurfiol hon i dynnu'n ôl yn barhaol.

Efallai y bydd gennych hawl i ad-daliad cyfrannol priodol o'r Ffioedd y byddwch wedi eu talu i ni.

n) Os bydd newidiadau sylweddol yn digwydd neu os bydd rhaid rhoi'r gorau i gwrs rhwng cyfnod gwneud y cais neu gynnig lle a chwblhau cofrestriad, byddwn yn gwneud y canlynol:

- cysylltu â chi cyn gynted â phosib i roi gwybod i chi am y newid i'r cwrs/ein bod yn rhoi'r gorau i gynnal y cwrs;
- rhoi cyngor a chefnogaeth gydag effaith y newidiadau;
- darparu gwybodaeth am unrhyw opsiynau a/neu ddewisiadau eraill sydd ar gael;
- lle bo'n briodol, rhoi cymorth i wneud cais neu sicrhau cynnig arall yn fewnol neu mewn sefydliad arall.

**Newidiadau i Statudau, Ordinhadau, Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau**

1. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ychwanegu at y Statudau a'r Ordinhadau, neu eu dileu neu wneud newidiadau rhesymol iddynt, ac felly hefyd yn achos rheolau, rheoliadau, gweithdrefnau a pholisïau eraill lle bydd hyn, ym marn y Brifysgol, yn cynorthwyo i ddarparu addysg mewn modd priodol.

2. Fel arfer gwneir newidiadau am un neu ragor o'r rhesymau canlynol:

- er mwyn adolygu a diweddaru'r Statudau a'r Ordinhadau, a rheolau, rheoliadau, gweithdrefnau a pholisïau eraill i sicrhau eu bod yn addas i'r diben;
- er mwyn adlewyrchu newidiadau yn yr amgylchedd allanol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i newidiadau cyfreithiol neu reoleiddiol, newidiadau i drefniadau cyllido neu ariannu neu newidiadau i bolisi, gofynion a/neu ganllawiau'r llywodraeth;
- er mwyn ymgorffori canllawiau neu arfer da'r sector;
- er mwyn ymgorffori adborth gan fyfyrwyr; a/neu
- er mwyn sicrhau rhagor o eglurder neu gysondeb yn y dull gweithredu.

Lle bynnag y bo modd, bydd y Brifysgol yn ymgynghori â myfyrwyr, trwy sianeli ffurfiol cynrychiolaeth myfyrwyr, ynghylch effaith unrhyw newidiadau gwirioneddol cyn eu gweithredu.

Bydd unrhyw newidiadau fel arfer yn dod i rym ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, er y gellir eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn academaidd os yw'r Brifysgol yn rhesymol o'r farn bod hyn er budd myfyrwyr neu pan fo hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith neu amgylchiadau eithriadol eraill. Bydd y Brifysgol yn cymryd pob cam rhesymol i darfu cyn lleied â phosibl ar fyfyrwyr lle bynnag y bo'n rhesymol bosibl, er enghraifft, drwy roi rhybudd rhesymol o newidiadau mawr i Statudau ac Ordinhadau, a rheolau, rheoliadau, gweithdrefnau a pholisïau eraill cyn iddynt ddod i rym, neu drwy gyflwyno'r newidiadau'n raddol, os yw hynny'n briodol.

Bydd y Statudau a'r Ordinhadau o'u diweddaru, a diweddariadau i reolau, rheoliadau, gweithdrefnau a pholisïau eraill ar gael ar wefan y Brifysgol a gellid rhoi cyhoeddusrwydd iddynt mewn ffyrdd eraill fel bod myfyrwyr yn ymwybodol o unrhyw newidiadau.

**Tynnu Rhaglenni yn Ôl.**

**Cyn dechrau'r Rhaglen**

o) Efallai y bydd rhaid i ni derfynu'r rhaglen (neu ryw faes pwnc) neu benderfynu peidio â darparu'r rhaglen neu uno neu gyfuno'r rhaglen â rhaglenni astudio eraill, os bydd y Brifysgol yn rhesymol yn ystyried bod cymryd camau o'r fath yn angenrheidiol. Os bydd y Brifysgol yn penderfynu cymryd camau o'r fath cyn i'r rhaglen ddechrau, yna bydd yn gwneud ymdrechion rhesymol i'ch hysbysu ymlaen llaw a bydd gennych hawl i derfynu'r Contract hwn trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Brifysgol. Dan yr amgylchiadau hynny, bydd gennych hawl i ad-daliad o unrhyw flaendal/ffioedd byddwch wedi eu talu i'r Brifysgol. Os dewiswch barhau i gofrestru ar raglen, ar ôl cael gwybod y gallai maes pwnc gael ei derfynu/ei ddileu yn raddol, yna byddwch yn derbyn y risg bod tebygolrwydd uwch o wneud Mân newidiadau neu newidiadau Mawr i gymal 11(g).

**Ar ôl dechrau'r Rhaglen**

p) Efallai y bydd adegau hefyd pan fydd rhaid i ni ddod â rhaglen i ben neu uno neu

gyfuno rhaglen â rhaglenni eraill ar ôl i'r rhaglen ddechrau, os bydd rhaid gwneud hynny oherwydd un o'r rhesymau a nodir yng nghymal 11(f).

q) Os yw cymal 11(l) yn berthnasol, byddwn yn cymryd camau rhesymol i geisio:

- cynnig lle i chi ar raglen amgen yn y Brifysgol (os oes lle ar gael a'ch bod yn cydymffurfio â'r gofynion ynglŷn â chael eich derbyn ar y rhaglen honno a chofrestru arni); neu
- (ar eich cais chi) eich cynorthwyo i ymuno â rhaglen arall mewn sefydliad arall, ac
- (os yw'n briodol), rhoi ad-daliad i chi o'r ffioedd a dalwyd gennych.

**12. Terfynu Gennym Ni**

Bydd y Contract yn parhau am y cyfnod a nodir yn y Cynnig oni bai eich bod chi neu ninnau yn ei derfynu neu'n ei ymestyn yn unol â'r Telerau a'r Amodau hyn.

Efallai y byddwn yn terfynu'r Contract gan roi rhybudd i chi (y fath rybudd ag sy'n briodol ar ôl dilyn unrhyw un o bolisïau neu weithdrefnau perthnasol y Brifysgol, ond, pan fo'r amgylchiadau'n mynnu hynny, rhybudd ar unwaith) o ganlyniad i'r canlynol:

a) Peidio, dros gyfnod sylweddol, â mynd i weithgareddau a amserlennwyd yn ffurfiol (fel yr ystyrir yn briodol gan yr ysgol berthnasol ar gyfer y rhaglen astudio) ac yn niffyg unrhyw amgylchiadau arbennig a gyflwynwyd neu ganiatâd ymlaen llaw i fod yn absennol o'r gweithgareddau hynny.
b) Peidio â chyflwyno elfennau sylweddol (fel yr ystyrir yn briodol gan yr ysgol berthnasol ar gyfer y rhaglen astudio) o waith cwrs neu beidio â bod yn bresennol mewn profion ac/neu arholiadau.
c) Yn achos myfyrwyr ymchwil ôl-radd, peidio â chwblhau o fewn cyfnod penodol, raglen waith y cytunwyd arni er boddhad y Pwyllgor Goruchwylio.
d) Methu â chyrraedd y safonau disgwyliedig mewn rhai lleoliadau proffesiynol neu yn y cwbl ohonynt. Gall y safonau gofynnol fod wedi eu diffinio gan y Brifysgol neu gallant fod yn safonau allanol sy'n berthnasol i fyfyrwyr ar raglenni sy'n arwain at gymwysterau proffesiynol.
e) Tystiolaeth o ymrwymiad annigonol i'w hastudiaethau yn y Brifysgol, er enghraifft, amharodrwydd parhaus i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp, seminarau, tiwtorialau neu gyflwyniadau.
f) Tystiolaeth fod y gwaith a gyflwynwyd i'w asesu yn is na'r safon trothwy'n gyson i'r fath raddau na all y myfyriwr osgoi methiant drwy ailasesu.
g) Peidio â chyflawni gofynion penodol a nodwyd ar gyfer rhaglen astudio neilltuol gan y Brifysgol neu Sefydliad Partner, yr oedd myfyrwyr yn ymwybodol ohonynt cyn cael eu derbyn ar y cwrs.
h) Methiant i gydymffurfio â'r Statudau a'r Ordinhadau, a rheolau, rheoliadau, gweithdrefnau a pholisïau eraill sy'n berthnasol i chi, fel y nodir yn Atodiad 2.

**13. Terfynu Gennych Chi**

a) Gallwch chi ddod â'n Contract i ben os byddwn ni yn ei dorri.

b) Fel arall, os byddwch yn dymuno tynnu'n ôl ar ôl i'r cyfnod canslo o 14 diwrnod ddod i ben o dan gymal 5 uchod, neu os bernir eich bod wedi tynnu'n ôl, yn dibynnu pryd ac am ba reswm yr ydych yn terfynu'r Contract (p’un a yw hynny cyn neu ar ôl cofrestru) efallai y bydd yn rhaid i chi dalu cyfran o'ch ffioedd dysgu ac unrhyw daliadau gorfodol, fel y pennir ym Mholisi Ffioedd Dysgu'r Brifysgol.

**Beth fydd yn digwydd os terfynir y Contract hwn?**

Os terfynir y Contract naill ai gennym ni neu gennych chi, bydd eich cyfnod o fod wedi cofrestru yn y Brifysgol yn dod i ben.

**14. Cwynion**

a) Dylai myfyriwr sy'n dymuno cwyno am agweddau ar unrhyw wasanaeth a gynigir gan y Brifysgol ddefnyddio'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr neu un o weithdrefnau eraill y Brifysgol lle bo hynny'n briodol (er enghraifft, gall fod gan fyfyriwr hawl i adolygu penderfyniad a wnaed gan Fwrdd Arholi neu Swyddogion/Panel Disgyblu). Bydd y Brifysgol yn darparu gwybodaeth am y weithdrefn gywir i'w defnyddio.
b) Os nad yw myfyriwr yn fodlon â chanlyniad ei gŵyn, gall fynd â'r gŵyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn www.oiahe.org.uk neu OIA, Second Floor, Abbey Wharf, 57-75 Kings Road, Reading RG1 3AB
c) Mae'r hawliau a ddarperir i fyfyrwyr o dan y Contract, gan gynnwys rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol, yn ychwanegol at yr amrywiaeth o ddarpariaethau diogelu sydd gan fyfyrwyr dan y gyfraith diogelu defnyddwyr, ac nid ydynt yn cyfyngu ar eich hawliau na'ch rhwymedïau fel defnyddwyr.

**15. Telerau pwysig eraill**

a) Mae'r Contract hwn rhyngoch chi a ni, ac ni fydd hawl gan unrhyw drydydd parti arall i wneud unrhyw hawliad mewn cysylltiad â'r Contract.
b) Mae pob un o'r darpariaethau uchod yn ddarpariaethau ar wahân ac yn rhai y gellir eu torri. Yn unol â hynny, os bydd unrhyw lys neu awdurdod neu gorff awdurdodaeth gymwys yn canfod bod unrhyw ddarpariaeth o'r fath yn anghyfreithlon, yn ddi-rym neu'n ddarpariaeth na ellir ei gorfodi, ni fydd hyn yn effeithio ar weddill y darpariaethau hynny a fydd yn parhau mewn grym ac effaith lawn.
c) Bydd ein Contract yn dod i ben yn awtomatig ar ddiwedd eich cyfnod cofrestru, oni bai ei fod yn cael ei derfynu'n gynharach yn unol â'r telerau ac amodau hyn.
d) Caiff y Contract rhyngoch chi a ni ei lywodraethu gan Gyfraith Cymru a Lloegr. Rydych chi a ni'n cytuno bod gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth dros unrhyw anghydfodau a allai godi o dan y Contract hwn. Ond os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon gallwch hefyd ddwyn achos yng Ngogledd Iwerddon, ac os ydych yn byw yn yr Alban, gallwch hefyd ddwyn achos yn yr Alban.

**Atodiad 1**
**Ffurflen Ganslo**

*(Llenwch a dychwelwch y ffurflen hon os ydych yn dymuno tynnu'n ôl o'r contract)*

I [ENW Y MASNACHWR, CYFEIRIAD, RHIF FFÔN AC, OS YDYNT AR GAEL, RHIF FFACS A CHYFEIRIAD E-BOST I'W NODI GAN Y MASNACHWR]:

Rwyf i/Rydym ni [*] trwy hyn yn rhoi rhybudd fy mod i/ein bod ni [*] yn canslo fy nghontract/ein contract [*] i werthu'r nwyddau canlynol [*]/i gyflenwi'r gwasanaeth canlynol [*],

Archebwyd ar [*] / derbyniwyd ar [*],

Enw'r defnyddiwr/defnyddwyr,

Cyfeiriad y defnyddiwr/defnyddwyr,

Llofnod y defnyddiwr/defnyddwyr (dim ond os yw'r ffurflen hon ar bapur),

Dyddiad

[*]Dilëwch fel bo’n briodol

**Atodiad 2**
**Polisïau a Gweithdrefnau Perthnasol**

| Dogfen | Lle |
|---|---|
| Rheoliadau Rhaglenni Hyfforddedig (01)<br>Rheoliadau Rhaglenni Ymchwil Ôl-raddedig (03)<br>Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) (09)<br>Gweithdrefn Cwynion Myfyrwyr (01)<br>Gweithdrefn Apeliadau Academaidd (02)<br>Gweithdrefn Cwynion Derbyniadau<br>Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer yr Holl Fyfyrwyr a Chod Ymddygiad i Fyfyrwyr (13)<br>Rheoliad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr (21)<br>Gweithdrefn Uniondeb Academaidd (05)<br>Terfynu Astudiaethau (06)<br>Addasrwydd i Astudio (08)<br>Gweithdrefn Addasrwydd/Ffitrwydd i Ymarfer (09)<br>Darpariaeth Gynhwysol i Fyfyrwyr Anabl (11)<br>Cefnogaeth Fugeiliol (15)<br>Dysgu ar Leoliad (03)<br>Cymeradwyo Gohirio Astudiaethau (07) | https://www.bangor.ac.uk/regulations/index.php.cy |
| Atodlen Ffioedd Dysgu<br>Polisi Ffioedd Dysgu | https://www.bangor.ac.uk/student-administration/fees/index.php.cy |
| Siarter y Myfyrwyr | https://www.bangor.ac.uk/cy/siarter-myfyrwyr |
| Polisi Ymgysylltiad Academaidd (Rhyngwladol / Cartref - Undeb Ewropeaidd) | https://www.bangor.ac.uk/cy/gwasanaethau-myfyrwyr/y-tim-monitro-a-chydymffurfio |
| Polisi ar Ddefnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol a Llwyfannau Digidol Eraill | https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/governance.php.cy |

| | |
|---|---|
| Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrwyr (Darpar Fyfyrwyr a Myfyrwyr Cofrestredig) | |